



**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
(QSIC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd eto i'w cadarnhau
19 Awst 2021, 10:00**

**Lleoliad: Ystafell 3/7, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall,
Caerdydd a thrwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Yn bresennol:		
Philippa Bassett	(PB)	Rheolwr Datblygu'r Gweithlu Sgrinio (ar gyfer eitem 48/2021)
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Richard Hayward	RH	Rheolwr Perthynas Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)
Wayne Jepson	(WP)	Arweinydd Rhaglen / Cynghorydd Gwelliant
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a Chyfarwyddwr Meddygol
John Lawson	(JL)	Prif Swyddog Risg a Phennaeth Llywodraethu Gwybodaeth
Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/ Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (ar gyfer eitem 52/2021)
Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Llywodraethu a Chyffredinol
Claire Thomas	(CIT)	Meddyg Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (<i>arsylwi ar y cyfarfod</i>)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd ochr staff (<i>gadawodd y cyfarfod am 11:30 am</i>)

	Cofnodion y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwellu heb eu Cadarnhau 19 Awst 2021
--	---

Ymddiheuriadau		
Eleri Lloyd-Burns	(ELB)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Eleri Davies	(ED)	Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Pennaeth y Rhaglen Haint sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR).
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Tîm Gweithredol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Ysgrifennydd		
Reanne Reffell		Swyddog Cymorth y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:00</i>		
QSIC 43/2021 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau		
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19 ac mewn perthynas â'r canllawiau cenedlaethol ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.		
Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.		
Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol.		
QSIC 44/2021 Datganiadau o Fuddiannau		
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		
Eitemau ar gyfer Sicrwydd		
QSIC 45/2021 Matrics Diogelu Aeddfedrwydd		
Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan RBW yn egluro sefyllfa bresennol Matrics Diogelu Aeddfedrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (SMM) (Cyf 3.1.QSIC.190821).		
Amlinellodd RBW y ffocws ar drefniadau diogelu mewnol; penodi Donna Newell (DN) fel arweinydd diogelu o safbwynt corfforaethol; defnyddio SMM		

Dyddiad: 19 Awst 2021	Fersiwn: v0.4	Tudalen: 2
------------------------------	----------------------	-------------------

fel offeryn hunanasesu a ddefnyddir i ysgogi gwelliant. Gwneir proses adolygu cymheiriaid gyda sefydliadau GIG eraill o fewn rhwydwaith Diogelu GIG Cymru. Disgwylir i'r SMM gael ei adnewyddu fel rhan o waith parhaus y rhwydwaith.

Aeth RBW yn ei blaen i amlinellu sefyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ymhellach yn erbyn yr hunanasesiad ar gyfer 2019/20; yr heriau o fod yn sefydliad cenedlaethol o ran sut y gallwn weithio'n gyfrannol ac yn briodol gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol amlasiantaethol; meysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu gwelliant a'r camau nesaf o 2020/21 ymlaen; ynghyd â'r cyflawniadau a'r cynnydd nodedig a wnaed yn ystod yr ymateb i COVID-19

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- yr oedi blwyddyn o ran nodi meysydd i'w gwella oherwydd natur ôl-weithredol y matrices, a sut i fod yn sicr eu bod yn parhau i fod yn feysydd cywir i ffocysu arnynt yn y dyfodol. Amlygodd JB hefyd, oherwydd yr oedi, y gallai materion fod wedi newid ac y gallai ymyriadau gymryd mwy na blwyddyn i asesu a oeddent wedi gweithio/mai nhw oedd y rhai cywir i'w rhoi ar waith. Aeth yn ei flaen i gynnig y gefnogaeth i'r Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol o ran dulliau gwelliant.

Cam Gweithredu: JB

Cytunwyd y byddai'r Arweinydd Corfforaethol newydd ar gyfer Diogelu, a thrwy Arweinydd Gwasanaeth y Tîm Diogelu Cenedlaethol, yn ystyried y materion a godwyd ar natur ôl-weithredol dull yr SMM. Byddent hefyd yn rhoi gwybod i'r tîm cenedlaethol a Rhwydwaith Diogelu'r GIG Cenedlaethol am bryderon i'w hystyried yn ystod adnewyddiad SMM.

Cam Gweithredu: DN/RBW

- Nododd RH fod yr hyfforddiant diogelu cadarnhaol VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) wedi mynd rhagddo trwy gydol 2020/21 er gwaethaf heriau'r pandemig.

Diolchodd KE i RBW ar ran y Pwyllgor am y cyflwyniad cynhwysfawr a nododd ei diddordeb yn llwyddiant a gwelliant yn yr agwedd sy'n cael ei llywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) o'r SMM, o ystyried cyfranogiad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymryd sicrwydd** o'r cynnydd hyd yma wrth ymgymryd â'r cynllun gwella Matrics Diogelu Aeddfedrwydd, a bod trefniadau diogelu priodol ar waith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- **Nodi'r** sefyllfa fel sefydliad yn erbyn y safonau Matrics Diogelu Aeddfedrwydd (2019/20) a'r camau nesaf;
- **Cytuno** i dderbyn yr iteriad nesaf yng ngwanwyn 2022, yn ogystal â'r adroddiad diwedd blwyddyn, er mwyn cael rhagolwg ehangach.

QSIC 46/2021	Dangosyddion Ansawdd - Dangosfwrdd	
Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan RBW a JL ar y Dangosfwrdd Dangosyddion Ansawdd. Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol: • yr angen am adnewyddiad o'r strategaeth hirdymor trosfwaol, adeiladu mesurau canlyniadau a dangosyddion ansawdd ar y cyd â Nathan Jones ac Iain Bell. • y byddai dangosyddion ansawdd yn cael eu cynnwys yn y dangosfwrdd perfformiad, gyda'r iteriadau nesaf yn ffocysu ar ddangosfyrddau lefel cyfarwyddiaeth. • y defnydd o'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad gan y Pwyllgor a sut y byddai hynny'n trosi i'r Bwrdd. Cytunwyd y dylid cynnal trafodaeth cyn y cyfarfod nesaf ar ddatblygu'r defnydd o'r dangosyddion ansawdd a pherfformiad a'r dangosfwrdd, a byddai Nathan Jones yn cael ei wahodd i ymuno â'r drafodaeth. Cam Gweithredu: LB Nododd y Pwyllgor y diweddariad a ddarparwyd a chymerwyd sicrwydd o ddatblygiad dangosyddion ansawdd fel rhan o'r gwaith parhaus gyda'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.		
QSIC 47/2021	Y Gofrestr Risg Gorfforaethol	
Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Cyf 3.3.QSIC.190821). Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol: • y gwaith sydd ar y gweill i adolygu'r agenda risg (risgiau corfforaethol, cyfarwyddiaeth a strategol), yn dilyn trafodaeth sylweddol yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol Busnes ddydd Llun. Nododd y Pwyllgor nad oedd y papur, oherwydd y trafodaethau hyn, yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ond cymerwyd sicrwydd nad oedd unrhyw risgiau ychwanegol wedi'u hychwanegu yn ychwanegol at y rhai yn y papur a dderbyniwyd. • pa mor ddefnyddiol oedd cynnwys y Cyfarwyddwyr Anweithredol mewn gweithdai risg, a nodwyd y byddai risgiau strategol yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod mis Medi y Bwrdd. Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd o reoli risgiau.		
QSIC 48/2021	Gweithredu'r Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar weithrediad y Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gan PB (Cyf 3.4.QSIC.190821). Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:		
Dyddiad: 19 Awst 2021	Fersiwn: v0.4	Tudalen: 4

- bod y cymhwyster Hanfodion Sgrinio Lefel 3 wedi rhoi'r gallu i staff symud ar draws y gwahanol raglenni sgrinio a gwneud cynnydd trwy lwybrau gyrfa gyda rhywfaint o hyfforddiant sgiliau a gwybodaeth sgrinio penodol ychwanegol;
- cais SW am ddiweddariad ar y gwaith rhagorol i ochr staff, a chynnig o weithio mewn partneriaeth ar y cyd;
- eglurhad ar gymesuredd y ffigurau a sicrwydd bod staff yn cael cynnig cyfleoedd. amlygodd PB fod mwy na 50% o'r garfan gyfan o'r sefydliad mewn rhyw fath o hyfforddiant, er gwaethaf symudiad staff ac effaith COVID.
- eglurhad ar ddibyniaeth cyrff addysg uwch / allanol ar gyfer dilysu. cadarnhaodd PB y cyflwynir cyrsiau yn fewnol, a thrwy hynny sicrhau cynaliadwyedd.

Diolchodd y Pwyllgor i'r tîm am ddarparu rhaglen waith wych ac am gyflawni niferoedd sylweddol o hyfforddiant trwy gydol y pandemig.

Gadawodd PB am 11:12

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch cynnydd gweithredu'r Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

QSIC 49/2021 Adroddiad Rhybuddion

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad Rhybuddion ar gyfer Chwarter 1, 2021-22 (cyf 3.5.QSIC.190821).

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi yr ymdriniwyd â'r holl rybuddion o fewn yr amser priodol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r reoli rhybuddion a dderbynnir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

QSIC 50/2021 Adroddiad Gweithio i Wella

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Gweithio i Wella: Chwarter 1, 2021-22 (Cyf 3.6.QSIC.190821).

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad a nodi:

- o'r tri digwyddiad, byddai dau yn cael eu trafod yn y cyfarfod preifat, bod y digwyddiad sy'n weddill, ynghyd â digwyddiad ychwanegol a ddigwyddodd ers amser yr adroddiad yn ymwneud â materion cadwyn gyflenwi;
- newidiadau yn yr amserlenni adrodd;
- newid y term a phroses LIC ar gyfer cofnodi Digwyddiadau Difrifol, i Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol,
- bod y ffigur perfformiad yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a adroddwyd ond yn amodol ar chwarteri adrodd Llywodraeth Cymru.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o effeithiolrwydd rheoli pryderon (digwyddiadau, cwynion a hawliadau).

QSIC 51/2021	Trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol
---------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol (cyf 3.9.QSIC.190821).

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad, gan nodi:

- yr argymhellion a nodwyd yn y canllawiau Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) newydd;
- y byddai MK yn ymgymryd â rôl Arweinydd Gweithredol ar gyfer rheoli dyfeisiau meddygol yn y dyfodol a byddai Cyfarwyddiaeth QNAPS yn ei chefnogi mewn perthynas ag adolygu trefniadau llywodraethu yn effeithiol yn erbyn safonau a nodwyd.

Diolchodd y Pwyllgor i Sharon Twine, Rheolwr Llywodraethu Integredig yn ei habsenoldeb, am ei hymdrechion.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar y gwaith a wnaed i gryfhau llywodraethu dyfeisiau meddygol.

Gadawodd SW y cyfarfod am 11:30 am

QSIC 52/2021	Adroddiad Iechyd a Diogelwch
---------------------	-------------------------------------

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 1, 2021-22 (Cyf 3.7.QSIC.190821).

Cadarnhaodd CO nad oedd unrhyw RIDDOR wedi cael eu cofnodi, ac amlygodd y gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 a sicrhau diogelwch staff. Dywedodd CO fod staff wedi cael gwybod am y symud i lefel 0, ond nid oedd unrhyw newidiadau i'r mesurau lliniaru eisoes ar waith.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

QSIC 53/2021	Diweddariad System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru
---------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor y Diweddariad System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru (OFWCMS) (Cyf 3.10.QSIC.190821).

Nododd y Pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aros am gadarnhad gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ddyddiad cyflwyno'r rheolaethau seiberddiogelwch cyn bod mewn sefyllfa i symud y cynllun gweithredu OFWCMS wedi'i aildrefnu yn ei flaen (system Datix a gaffaelwyd yn genedlaethol i'w haddasu lle bo hynny'n bosibl ar gyfer anghenion y sefydliad). Roedd hyn er mwyn sicrhau bod data'n cael eu rhyddhau'n

ddiogel. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y llinell amser yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cam Gweithredu: RBW

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithredu rheolaeth a rheolaeth prosiect effeithiol dros weithredu'r System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru (Datix).

QSIC 54/2021

Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Canfyddiadau Blynyddol 2020-2021 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) gan Richard Hayward, o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Cyf 3.11.QSIC.190821).

Myfyriodd y Pwyllgor yn gadarnhaol ar adolygiad lleol Bron Brawf Cymru, a'r ymdrech i ailddechrau gwasanaethau sgrinio. Gwnaethant nodi bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd o gamau lliniaru i frwydro yn erbyn heriau sgrinio ac oedi trwy gydol y pandemig.

Dywedodd RH fod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ystyried yn sefydliad risg isel a oedd â threfniadau llywodraethu da ar waith.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar ganfyddiadau'r adroddiadau blynyddol.

Eitemau i'w Cymeradwyo

QSIC 55/2021

Cofnodion, Cofnodion Gweithredu a Materion sy'n Codi o'r cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mehefin 2021 a'r Cofnodion Gweithredu (Cyf 4.1.QSIC.190821).

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 fel cofnodion gwir a chywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwyo** cau'r ddau weithred ar y log gweithredu.
- **Nodi** dim materion i'w codi.

QSIC 56/2021

Diweddariad Hunanasesu Llywodraethu Ansawdd

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar yr Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd (Cyf 4.2.QSIC.190821).

Esboniodd RBW eu bod wedi monitro cynnydd yn erbyn yr hunanasesiad drwy'r Pwyllgor, wedi nodi'r ffrydiau gwaith a'r rhaglenni gwaith newydd ac aeth ymlaen i argymhell dull trosglwyddo o rai meysydd e.e. Cynllun gweithredu Strategaeth Llywodraethu ac Ansawdd a Gwella Integredig, heb unrhyw ofyniad parhaus i fonitro'r fframwaith penodol hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- y swm enfawr o waith a welwyd trwy'r camau gorffenedig yn yr adroddiad;
- trafodaethau blaenorol y Pwyllgor ynghylch gwella ansawdd a'r angen am draciwr i sicrhau na chollir amrywiol elfennau yn ystod integreiddio. Cytunodd RBW ac Uned Fusnes y Bwrdd i sicrhau y byddai'r elfennau hyn yn cael eu tracio a'u croesgyfeirio o safbwynt llywodraethu wrth fwrw ymlaen.

Cam Gweithredu: RBW / LB

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu, a **chytunodd** y byddai unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau yn cael eu hamsugno i ffrydiau gwaith perthnasol eraill sy'n cael eu monitro gan y Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgorau.

QSIC 57/2021 Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2020/21

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2020/21 (Cyf 4.3.QSIC.190821).

Diolchodd RBW i JL am ei waith caled yn y lleoliad Gweithio i Wella (PTR), gan nodi y byddai Stuart Silcox yn cymryd yr awenau, ac y byddai rheolwr arweiniol PTR pwrpasol yn cael ei recriwtio. Gwnaeth RBW sylwadau ar yr her i sicrhau bod y lefel gywir o sylw yn cael ei rhoi ar draws holl agenda PTR, a'r angen i sicrhau capasiti ac adnoddau staff priodol.

Sicrhawyd y Pwyllgor bod yr holl eitemau yn yr adroddiad blynyddol wedi'u hystyried o'r blaen ar lefel Pwyllgor.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2020/21.

Eitemau i'w Nodi

QSIC 58/2021 Archwiliad Cofrestru

Nododd y Pwyllgor yr Archwiliad Cofrestru (Cyf 5.1.QSIC.190821).

QSIC 59/2021 Gweinyddiaeth i Gloi

QSIC 59.1/2021 Unrhyw Fater Arall

Dim

QSIC 59.2/2021 Adborth y Pwyllgor

Cytunwyd y byddai adborth o'r cyfarfod yn cael ei geisio trwy e-bost yn dilyn y cyfarfod.

QSIC 59.3/2021 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2021

Daeth y sesiwn agored i ben am 12:05 pm